WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Cynllun Archwilio 2018 – **Cyngor Sir Ddinbych**

Blwyddyn archwilio: 2017-18

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2018

Cyfeirnod y ddogfen: 478A2018-19

Paratowyd y ddogfen hon i'w defnyddio'n fewnol gan Gyngor Sir Ddinbych yn rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar yr Archwilydd Cyffredinol, staff Swyddfa Archwilio Cymru na, lle y bo'n gymwys, yr archwilydd penodedig mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a, lle y bo'n gymwys, yr archwilydd penodedig yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

This document is also available in English. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Lluniwyd y ddogfen hon gan Swyddfa Archwilio Cymru.

# Cynnwys

Cynllun Archwilio 2018

Crynodeb 4

Archwilio cyfrifon 4

Archwilio perfformiad 8

Ardystio hawliadau a ffurflenni grant 11

Y ffi, y tîm archwilio a'r amserlen 12

Datblygiadau yn y dyfodol i'm gwaith archwilio 14

Atodiadau

Atodiad 1 – priod gyfrifoldebau 16

Atodiad 2 – gwaith perfformiad sy'n dal i fynd rhagddo o amlinelliad archwiliad y llynedd 19

Atodiad 3 – datblygiadau eraill yn y dyfodol 20

Atodiad 4 – astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol 23

# Cynllun Archwilio 2018

## Crynodeb

1 Fel eich archwilydd allanol, fy amcan yw cynnal archwiliad sy'n cyflawni fy nyletswyddau statudol fel Archwilydd Cyffredinol a'm rhwymedigaethau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf Llywodraeth Leol 1999, a'r Cod Ymarfer Archwilio, sef:

- edrych yn fanwl ar eich datganiadau ariannol ac ardystio a un a ydynt yn 'gywir a theg' ai peidio;
- asesu a ydych wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y defnydd o adnoddau;
- archwilio ac asesu a ydych wedi cyflawni'r dyletswyddau ac wedi bodloni gofynion y Mesur; a
- chynnal astudiaethau i'm galluogi i wneud argymhellion ar gyfer gwella darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd neu ar gyfer gwella trefniadau rheoli ariannol neu drefniadau rheoli eraill.

2 Diben y cynllun hwn yw nodi'r gwaith y bwriadaf ymgymryd ag ef, pryd yr ymgymerir ag ef, faint y bydd yn ei gostio a phwy fydd yn ymgymryd ag ef.

3 Ni orfodwyd unrhyw gyfyngiadau arnaf wrth gynllunio cwmpas yr archwiliad hwn.

4 Nodir fy nghyfrifoldebau, ynghyd â chyfrifoldebau'r rheolwyr a'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu, yn Atodiad 1.

## Archwilio cyfrifon

5 Fy nghyfrifoldeb i yw cyhoeddi tystysgrif ac adroddiad ar y datganiadau ariannol sy'n cynnwys barn ar eu 'cywirdeb a'u tegwch'. Mae hyn yn rhoi sicrwydd bod y cyfrifon:

- yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol pa un a gawsant eu hachosi drwy dwyll neu wall;
- yn cydymffurfio â'r gofynion statudol a gofynion cymwys eraill; ac
- yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu o ran cyfrifyddu.

6 Rwyf hefyd yn ystyried a yw Cyngor Sir Dinbych (y Cyngor) wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau, ac yn adrodd ar sail eithriadau os nad yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cydymffurfio â'r gofynion.

7 Nodir fy nghyfrifoldebau yn llawn yn Atodiad 1.

8 Mae'r gwaith archwilio a wneir gennyf er mwyn cyflawni fy nghyfrifoldebau yn ymateb i'm hasesiad o risgiau. Mae'r ddealltwriaeth hon yn galluogi i mi ddatblygu dull archwilio sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â risgiau penodol gan roi sicrwydd ar yr un pryd ynglŷn â'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd. Mae tri cham i'm dull archwilio fel y nodir yn Nangosyn 1.

Dangosyn 1: fy null archwilio

Mae fy null archwilio yn cynnwys tri cham allweddol: cynllunio a gweithredu ac, yn olaf, llunio casgliadau ac adroddiad




9 Nodir y risgiau o gamddatganiadau perthnasol yr ystyriaf eu bod yn sylweddol ac y mae angen rhoi ystyriaeth archwilio arbennig iddynt o ganlyniad i hynny yn Nangosyn 2, ynghyd â'r gwaith y bwriadaf ei gyflawni i ymdrin â hwy.

Dangosyn 2: risgiau archwilio ariannol

Mae'r tabl hwn yn crynhoi'r prif risgiau archwilio ariannol a nodwyd yng ngham cynllunio'r archwiliad

| Risg archwilio ariannol | Ymateb archwilio arfaethedig |
|---|---|
| Ceir risg y bydd rheolwyr yn diystyru rheolaethau ym mhob endid ar hyn o bryd. Am nad oes modd rhagweld sut y gallai rheolaethau gael eu diystyru yn y fath fodd, ystyrir ei bod yn risg sylweddol [ISA 240.31-33]. | Bydd fy nhîm archwilio yn:<br>• profi priodoldeb cofnodion mewn dyddlyfrau ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu i ganfod unrhyw duedd; a<br>• yn gwerthuso'r sail resymegol ar gyfer unrhyw drafodion sylweddol nad ydynt yn rhan o fusnes arferol. |
| Yn 2017-18, mae'r Cyngor wedi ail-brisio elfennau o'i bortffolio asedau yn unol â'r rhaglen ail-brisio dreigl. | Byddwn yn dylunio profion archwilio er mwyn sicrhau bod yr ymarfer ail-brisio wedi'i gynnal mewn modd priodol, ac y rhoddwyd cyfrif cywir am yr ailbrisiadau gofynnol yn natganiadau ariannol 2017-18. |

| Risg archwilio ariannol | Ymateb archwilio arfaethedig |
|---|---|
| Mae gan y Cyngor nifer o brosiectau cyfalaf sydd i fod i gael eu cwblhau ar wahanol adegau o'r flwyddyn, ac mae risg bosib y bydd y gwariant cyfalaf wedi'i ddosbarthu'n anghywir fel gwariant gweithredol neu anweithredol (asedau sy'n cael eu hadeiladu). | Byddwn yn adolygu'r prosiectau cyfalaf a gwblhawyd tua diwedd y flwyddyn ac yn cadarnhau eu bod wedi'u dosbarthu'n gywir ar y datganiadau ariannol. |
| Wrth baratoi'r Datganiad Cyfrifon, bydd nifer o ffigurau'n cael eu hamcangyfrif wrth gyfrifo, fel darpariaethau ar gyfer atebolrwydd y Cyngor. | Byddwn yn adolygu:<br>• sail amcangyfrifon cyfrifyddu o bwys ar gyfer 2017-18; ac<br>• yn sicrhau bod gofynion cyfrifyddu a datgelu priodol yn cael eu cynnwys ar y datganiadau ariannol. |
| Rydym wedi nodi sawl datgeliad o bwys. Mae'r rhain yn cynnwys datgelu Partïon Cysylltiedig a Thaliadau Uwch Swyddogion. | Byddwn yn:<br>• adolygu'r holl nodiadau a datgeliadau sydd yn sylweddol oherwydd eu natur; ac<br>• yn profi'r datgeliadau hyn er mwyn sicrhau eu bod yn gyson â thystiolaeth ategol a'u bod yn unol â'r Cod. |

10 Paratoir y datganiadau ariannol yn unol â Chod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar gyfer Cadw Cyfrifon Llywodraeth Leol (y Cod). Deallwn fod Cod 2017-18 yn cynnwys mân newidiadau. Fodd bynnag, gan fod gofyniad ar y gorwel i Lywodraethau Lleol gau eu cyfrifon ynghynt, bydd y Cyngor yn parhau i ddiwygio'r broses o baratoi cyfrifon yn barod ar gyfer dyddiadau cau cynharach yn y dyfodol.

11 Bydd fy nhîm archwilio yn parhau i weithio gyda'r Cyngor a'i staff ac yn eu cefnogi i gytuno ar y dull mwyaf priodol o gyflwyno'r datganiadau ariannol. Byddant hefyd yn cytuno ar welliannau i'r fethodoleg a'r papurau gwaith sy'n cefnogi'r datganiadau ariannol, lle bo angen.

12 Nid wyf yn ceisio cael sicrwydd llwyr ar gywirdeb a thegwch y datganiadau ariannol a'r nodiadau cysylltiedig, ond mabwysiadaf gysyniad o berthnasedd. Fy nod yw nodi camddatganiadau perthnasol, hynny yw, y rheini a allai gamarwain y sawl sy'n darllen y cyfrifon. Caiff y lefelau a ddefnyddir gennyf i farnu a yw'r camddatganiadau hynny'n berthnasol yn cael eu hadrodd wrth y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu cyn cwblhau'r archwiliad.

13 I ddibenion adrodd, byddaf yn ymdrin ag unrhyw gamddatganiadau sydd islaw lefel 'ddibwys' (5% o berthnasedd neu £100,000, pa un bynnag sydd isaf) fel materion nad oes angen i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu eu hystyried ac felly ni fyddaf yn cyflwyno adroddiad arnynt.

14 Mae fy ffioedd yn seiliedig ar y tybiaethau canlynol:

- mae swyddogion wedi cynnal adolygiad cadarn o sicrwydd ansawdd drafft y datganiadau ariannol;
- defnyddir esboniadau priodol yn y datganiadau ariannol drafft i gefnogi symudiadau mewn balansau, trafodion a nodiadau datgelu rhwng y naill flwyddyn a'r nesaf;
- bod y papurau gwaith a'r wybodaeth arall a ddarperir i gefnogi'r datganiadau ariannol yn amserol, yn bodloni'r ansawdd a ddisgwylir ac wedi'u hadolygu i ddibenion sicrhau ansawdd;
- bod safleoedd a chyfleusterau priodol yn cael eu darparu i alluogi fy nhîm archwilio i gyflawni'r archwiliad yn effeithlon;
- y bydd yr holl swyddogion priodol ar gael yn ystod yr archwiliad;
- bod yr holl reolaethau a gwiriadau angenrheidiol ar waith i alluogi'r Swyddog Ariannol Cyfrifol i roi'r holl sicrwydd sydd ei angen arnaf yn y Llythyr Sylwadau a anfonir ataf; a
- bod rhaglen waith arfaethedig y gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi'i chwblhau a bod y rheolwyr wedi ymateb i faterion a allai fod wedi effeithio ar y datganiadau ariannol.

15 Yn ogystal â'm cyfrifoldebau o ran archwilio datganiadau ariannol statudol Cyngor Sir Ddinbych, a nodwyd uchod, y mae hefyd yn ofynnol i mi ardystio datganiad a gyflwynir i Lywodraeth Cymru sy'n rhoi gwybodaeth am Gyngor Sir Ddinbych er mwyn cefnogi'r gwaith o baratoi'r Cyfrifon Llywodraeth Gyfan.

## Swyddogaethau archwilio statudol

16 Yn ychwanegol at yr archwiliad o'r cyfrifon, y mae cyfrifoldeb statudol arnaf i dderbyn cwestiynau neu wrthwynebiadau i'r cyfrifon gan etholwyr lleol. Nodir y cyfrifoldebau hyn yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004:

- Adran 30 Edrych ar ddogfennau a chwestiynau mewn archwiliad; ac
- Adran 31 Yr hawl i wneud gwrthwynebiad mewn archwiliad.

17 Codir ffioedd archwilio am waith a gyflawnir wrth ymdrin â chwestiynau a gwrthwynebiadau gan etholwyr. Gan y bydd y gwaith archwilio yn ddibynnol ar nifer a natur unrhyw gwestiynau a gwrthwynebiadau, ni ellir rhoi amcangyfrif o'r ffi archwilio ar gyfer y gwaith hwn.

18 Os caf gwestiynau neu wrthwynebiadau, byddaf yn trafod y ffioedd archwilio posibl ar y pryd.

## Gwaith archwilio ariannol arall

19 Yr wyf hefyd yn gyfrifol am gynnal archwiliad annibynnol o Gyd-bwyllgor yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE). Ni chefais hyd i unrhyw risgiau penodol yn gysylltiedig â'r Cyd-bwyllgor. Nodir fy ffi archwilio annibynnol am y gwaith hwn yn Nangosyn 5.

# Archwilio perfformiad

20 Mae angen i mi gydbwyso fy nyletswyddau statudol presennol, newydd ac arfaethedig â’r angen i barhau i gynnal archwiliadau ac asesiadau ystyrlon a chymesur sy’n seiliedig ar risg. Wrth gyflawni fy nghyfrifoldebau byddaf yn parhau i geisio taro'r cydbwysedd mwyaf priodol ac ychwanegu gwerth drwy:

- roi sicrwydd o ran y ffordd y caiff arian cyhoeddus ac asedau eu llywodraethu a’u gwarchod;
- rhoi cipolwg defnyddiol o’r graddau y defnyddir adnoddau yn ddoeth i ddiwallu anghenion pobl; a
- nodi a hyrwyddo ffyrdd y gellir gwella’r broses o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

21 Gan ei bod hi'n debygol y bydd y Bil Llywodraeth Leol Cymru arfaethedig yn cynnig na ddylai Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 fod yn berthnasol i gynghorau mwyach, byddaf yn canolbwyntio llai wrth fy ngwaith ar y broses o gynllunio gwelliannau.

22 Yn y blynyddoedd diwethaf, yr wyf wedi dibynnu ar fy ngwaith o dan y Mesur er mwyn helpu i gyflawni fy nyletswydd o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, i'm bodloni fy hun fod cynghorau wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd (gwerth am arian) wrth ddefnyddio adnoddau. Gan na fyddaf yn gallu dibynnu ar fy ngwaith o dan y Mesur yn y dyfodol, yn 2018-19 ac yn y blynyddoedd ar ôl hynny, bydd ffocws fy rhaglenni archwilio perfformiad lleol wedi'i alinio'n gliriach â'm dyletswydd i gyflawni Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

23 Yn 2017-18, cyflawnais fy ngwaith cyntaf o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Sylwebaeth Blwyddyn Un. Nod y gwaith hwn oedd canfod sut mae cyrff cyhoeddus yn dechrau ymateb i'r Ddeddf a rhannu arferion sy'n dod i'r amlwg. Bydd fy rhaglen ar gyfer 2018-19 yn cynnwys yr archwiliadau annibynnol cyntaf sydd i'w cyflawni o dan y Ddeddf. Drwy'r archwiliadau hyn, cynhelir asesiad o'r graddau yr ydych yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau i gyflawni eich amcanion llesiant.

24 Mae Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn cynnal rhaglen o astudiaethau llywodraeth leol. Caiff y gwaith hwn ei gynnwys yn amcangyfrifon Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer cyllid o Gronfa Gyfunol Cymru yn hytrach na ffioedd lleol. Mae Dangosyn 3 yn crynhoi sefyllfa bresennol y rhaglen gyfredol o astudiaethau. Mae’r astudiaethau hyn yn arwain yn bennaf at adroddiad cenedlaethol a ategir gan allbynnau dysgu ar y cyd ac arfer da yn hytrach nag adroddiadau lleol. Caiff canfyddiadau lleol, lle bo hynny’n berthnasol, eu cynnwys mewn gwaith asesu gwelliant a’u cofnodi mewn adroddiadau gwella blynyddol yn dibynnu ar amseriad a ffocws y casgliadau.

25 Yn ystod gwanwyn 2018, byddaf hefyd yn ymgynghori ar fy mlaenraglen o astudiaethau ar draws yr holl sectorau, a byddwn yn croesawu sylwadau ynghylch y meysydd y dylwn fod yn canolbwyntio arnynt mewn adolygiadau cenedlaethol ar ôl lansio'r ymgynghoriad.

Dangosyn 3: astudiaethau llywodraeth leol

Yn 2018, cyhoeddais dri adroddiad cenedlaethol yn gysylltiedig â llywodraeth leol, a byddaf yn cyflawni gwaith maes ar gyfer tri adroddiad pellach yn nhymor yr haf a hydref 2018

| Astudiaeth | Statws |
|---|---|
| **Astudiaethau 2016-17** | |
| Sut mae llywodraeth leol yn rheoli'r galw | Cyhoeddwyd ar 9 Ionawr 2018 |
| Comisiynu strategol | Cyhoeddi ym mis Mawrth 2018 |
| Gwella llesiant drwy addasu tai | Cyhoeddwyd 22 Chwefror 2018 |
| **Astudiaethau 2017-18** | |
| Gwasanaethau i gymunedau gwledig | Gwaith Maes – Cyhoeddi haf / hydref 2018 |
| Defnydd o ddata | Gwaith Maes – Cyhoeddi haf / hydref 2018 |
| Cronfa Gofal Integredig | Gwaith Maes Chwefror – Cyhoeddi hydref 2018 |

26 Gan ystyried yr holl ffactorau hyn, bydd fy rhaglen waith ar gyfer 2018-19 yn cynnwys:

Dangosyn 4: rhaglen archwilio perfformiad

Bydd fy rhaglen archwilio perfformiad ar gyfer 2018 yn cynnwys prosiectau lleol ac astudiaethau cenedlaethol

| Rhaglen archwilio perfformiad | Disgrifiad byr |
|---|---|
| Gwaith archwilio ac asesu gwelliant, gan gynnwys archwiliad o'r trefniadau ar gyfer cynllunio ac adrodd ar welliannau. | Archwiliad o gyflawni dyletswydd i gyhoeddi cynllun gwella, ac i gyhoeddi asesiad o berfformiad. |
| Archwiliadau Annibynnol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf LlCD) | Edrych ar y graddau y mae'r Cyngor wedi gweithredu'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau i gyflawni un neu fwy o'i amcanion llesiant. Trafodir a chytunir ar hyn â'r Cyngor yn fuan yn 2018-19. |
| Sicrwydd ac Asesu Risg | Gwaith parhaus er mwyn canfod lefel y sicrwydd archwilio ac/neu a fydd angen cyflawni gwaith archwilio pellach yn y dyfodol yn gysylltiedig â'r risg na fydd y Cyngor yn gwneud trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau. |
| Gwasanaethau Hamdden | Adolygiad o'r trefniadau y mae'r Cyngor wedi'u gwneud i gyflenwi gwasanaethau hamdden, gan adeiladu ar yr astudiaeth a gyflawnwyd yn flaenorol gan yr Archwilydd Cyffredinol yn rhan o'r astudiaethau o dan y thema 'cyflawni â llai'. |

| Rhaglen archwilio perfformiad | Disgrifiad byr |
|---|---|
| Trefniadau Diogelu Corfforaethol | Adolygiad lefel uchel o effeithiolrwydd trefniadau diogelu corfforaethol sy'n adeiladu ar yr astudiaeth a gyflawnwyd yn flaenorol gan yr Archwilydd Cyffredinol yn y maes hwn. |
| **Astudiaethau Llywodraeth Leol 2018-19** | Ariennir gan Lywodraeth Cymru |
| Gweithredu Deddf y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant | Mae Deddf y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn canolbwyntio ar ddiwygio a symleiddio'r gyfraith yn gysylltiedig â'r gwasanaethau cymdeithasol. Cyflwynodd y Ddeddf ddyletswyddau newydd i awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol a chyrff cyhoeddus eraill. Mae'n cynnwys oedolion, plant a'u gofalwyr, a daeth i rym ar 6 Ebrill 2016. Bydd yr astudiaeth yn adolygu cynnydd gan awdurdodau wrth gyflawni eu dyletswyddau newydd o dan y Ddeddf, ac o gymorth i ganfod cyfleoedd i wella'r trefniadau rheoli a chyflenwi cyfredol. Ceir mwy o wybodaeth yn ein hadroddiad galwad am dystiolaeth a gyhoeddwyd ym mis Awst 2017. |
| Gweithredu'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 | Nod y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yw gwella ymateb y Sector Cyhoeddus i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol; rhoi ffocws strategol ar y materion hyn; a sicrhau ystyriaeth gyson o'r mecanweithiau ataliol, amddiffynnol a chefnogol wrth gyflenwi gwasanaethau. Bydd ein hadolygiad yn canolbwyntio ar effeithiolrwydd y trefniadau i wella cymorth i bobl yr effeithir arnynt gan gamdriniaeth a thrais o'r math hwn. Ceir mwy o wybodaeth yn ein hadroddiad galwad am dystiolaeth a gyhoeddwyd ym mis Awst 2017. |

| Rhaglen archwilio perfformiad | Disgrifiad byr |
|---|---|
| Gwerth am Arian Gwasanaethau Cynllunio | Enillodd Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 (y Ddeddf) Gydsyniad Brenhinol ar 6 Gorffennaf 2015. Mae'r Ddeddf yn nodi cyfres o newidiadau deddfwriaethol i ddiwygio'r system gynllunio yng Nghymru, er mwyn sicrhau ei bod yn system deg, yn gydnerth ac yn galluogi datblygiad. Bydd gwasanaeth cynllunio effeithiol yn cael y prif sylw wrth siapio cymeriad, datblygiad a ffyniant awdurdod lleol neu barc cenedlaethol. O ystyried gofynion y Ddeddf, mae'n bwysig i awdurdodau cynllunio sicrhau bod gwasanaethau'n addas i'r diben er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol ond hefyd yn cefnogi cyflawni blaenoriaethau corfforaethol, rhanbarthol a chenedlaethol. Bydd ein hadolygiad yn ystyried effeithiolrwydd ac effaith gwasanaethau cynllunio ar gymunedau lleol yng Nghymru. Ceir mwy o wybodaeth yn ein hadroddiad galwad am dystiolaeth a gyhoeddwyd ym mis Awst 2017. |

27 Mae'r prosiectau archwilio perfformiad a gynhwyswyd yng Nghynllun Archwilio'r llynedd, sydd naill ai'n dal ar y gweill neu y'u disodlwyd gan brosiectau eraill a gytunwyd â chi, wedi'u nodi yn Atodiad 2.

# Ardystio hawliadau a ffurflenni grant

28 Gofynnwyd i mi gyflawni gwaith ardystio ar hawliadau a ffurflenni grant Cyngor Sir Ddinbych.

29 Disgwylir i Lywodraeth Cymru symleiddio ei threfniadau sicrwydd drwy weithredu 'Rhestr Gryno o Grantiau Ardystiedig Llywodraeth Cymru' ym mhob awdurdod unedol. Gwneir hynny yn dilyn cynlluniau peilot llwyddiannus mewn pedwar awdurdod y llynedd. Byddwn yn darparu gwybodaeth bellach yn hwyrach eleni i esbonio'r modd y cyflawnir y gwaith hwn.

30 Nodir fy ffi archwilio ar gyfer y gwaith hwn yn Nangosyn 5.

# Y ffi, y tîm archwilio a’r amserlen

## Y Ffi

31 Nodir amcangyfrif o'ch ffi ar gyfer 2018 yn Nangosyn 5.

32 Yn unol â'n Cynllun Ffioedd cymeradwy ar gyfer 2018-19, mae fy nghyfraddau ffi wedi cynyddu rhywfaint (llai nag 1%), ac rydym wedi ceisio gostwng diwrnodiau archwilio a newid y gymysgedd o sgiliau i liniaru hyn.

Dangosyn 5: Y Ffi Archwilio

| Maes archwilio | Y Ffi Arfaethedig (£)[1] | Ffi Wirioneddol y Llynedd (£) |
|---|---|---|
| Archwilio cyfrifon[2] | 178,234 | 178,234 |
| Gwaith archwilio perfformiad:[3] | 97,710 | 97,710 |
| Gwaith ardystio grantiau[4] | 60,000 | 67,451 |
| Gwaith archwilio ariannol arall[5] | 1,134 | 1,134 |
| Cyfanswm y ffi | 337,078 | 344,529 |

Nodiadau:
[1] Nid yw’r ffioedd a ddangosir yn y ddogfen hon yn cynnwys TAW, oherwydd ni chaiff TAW ei chodi arnoch mwyach.
[2] Yn daladwy rhwng mis Tachwedd 2017 a mis Hydref 2018.
[3] Yn daladwy rhwng mis Ebrill 2018 a mis Mawrth 2019.
[4] Yn daladwy wrth i’r gwaith gael ei wneud. Sylwch fod a wnelo ein ffi wirioneddol am y flwyddyn ddiwethaf â thaliadau am waith grantiau hyd yma. Y mae un hawliad grant yn dal heb ei ardystio, ac rydym yn bwriadu cwblhau hwnnw'n fuan. Amcangyfrif felly yw'r ffigur a ddatgelwyd (£67,451).
[5] Cydbwyllgor Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE).

33 Bydd y broses gynllunio yn un barhaus, ac efallai y bydd angen newid fy rhaglen o waith archwilio ac, felly, y ffi os bydd unrhyw risgiau newydd allweddol yn codi. Ni fyddaf yn gwneud unrhyw newidiadau heb eu trafod â'r Cyngor yn gyntaf.

34 Ceir mwy o wybodaeth am fy ngraddfeydd ffioedd a’r broses o bennu ffioedd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru.

## Tîm archwilio

35 Ceir crynodeb o brif aelodau fy nhîm, ynghyd â'u manylion cyswllt, yn Nangosyn 6.

Dangosyn 6: fy nhîm

Mae'r tabl hwn yn cynnwys manylion cyswllt fy nhîm archwilio

| Enw | Rôl | Rhif cyswllt | Cyfeiriad e-bost |
|---|---|---|---|
| Anthony Veale | Cyfarwyddwr Ymgysylltu ac Arweinydd Ymgysylltu – Archwilio Ariannol | 02920 320585 | anthony.veale@archwilio.cymru |
| Michelle Phoenix | Rheolwr Archwilio Ariannol | 07966 073281 | michelle.phoenix@archwilio.cymru |
| Gareth Evans | Arweinydd Tîm yr Archwiliad Ariannol | 02920 320500 | gareth.evans@archwilio.cymru |
| Jeremy Evans | Rheolwr Archwilio Perfformiad | 07825 052861 | jeremy.evans@archwilio.cymru |
| Gwilym Bury | Arweinydd Archwilio Perfformiad | 07813 564432 | gwilym.bury@archwilio.cymru |

36 Ac eithrio un aelod o staff, gallaf gadarnhau bod holl aelodau fy nhîm yn annibynnol ar Gyngor Sir Ddinbych ac nad yw eich swyddogion na minnau'n ymwybodol o unrhyw wrthdaro buddiannau posibl y mae angen i mi dynnu eich sylw atynt.

37 O ran yr eithriad uchod, rydym wedi cynnal adolygiad o hyn a chasglu nad oes unrhyw gyfyngiadau sydd yn atal yr aelod o staff rhag gweithio ar yr archwiliad. Serch hynny, mae'r tîm archwilio wedi cymryd camau ychwanegol i ddiogelu ein hannibyniaeth a'n gwrthrychedd drwy sicrhau adolygiad ychwanegol o unrhyw waith a gyflawnir gan ein haelod staff ar yr archwiliad cyflogres.

## Amserlen

38 Byddaf yn cyflwyno adroddiadau, neu allbynnau eraill y cytunwyd arnynt, i Gyngor Sir Ddinbych, sy'n ymdrin â'r meysydd gwaith a nodir yn y ddogfen hon. Nodir fy ngherrig milltir allweddol yn Nangosyn 7.

Dangosyn 7: amserlen

Dyma dabl o'm hamserlen arfaethedig ar gyfer cwblhau ac adrodd ar fy ngwaith archwilio o fewn yr awdurdod

| Allbwn arfaethedig | Gwaith a wneir | Llunio'r adroddiad terfynol |
|---|---|---|
| **Cynllun Archwilio 2018** | Ionawr 2018 | Mawrth 2018 |
| **Gwaith cyfrifon ariannol:**<br>• Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol<br>• Barn ar y Datganiadau Ariannol<br>• Memorandwm Cyfrifon Ariannol | Chwefror – Medi 2018 | Medi 2018<br>Medi 2018<br>Hydref 2018 |
| **Gwaith perfformiad:**<br>• Archwiliad o'r Cynllun Gwella<br>• Archwiliad Asesu Perfformiad<br>• Sicrwydd ac Asesu Risg<br>• Archwiliad Annibynnol ar gyfer Deddf LlCD<br>• Gwasanaethau hamdden<br>• Trefniadau Diogelu Corfforaethol | Ebrill 2018<br>Tachwedd 2018<br>Tachwedd 2018 - Chwefror 2019<br>Ebrill 2018 - Chwefror 2019<br>Ebrill 2018 - Chwefror 2019<br>Ebrill 2018 - Chwefror 2019 | Mai 2018<br>Rhagfyr 2018<br>Mawrth 2019<br>Mawrth 2019<br>Mawrth 2019<br>Mawrth 2019 |
| **Adroddiad Gwella Blynyddol** | Ebrill 2018 - Mai 2018 | Mehefin 2019 |
| **Cynllun Archwilio 2019** | Rhagfyr 2018 | Mawrth 2019 |

* Yn amodol ar gymeradwyaeth amserol Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer y canfyddiadau drafft.

# Datblygiadau yn y dyfodol i'm gwaith archwilio

39 Mae manylion am ddatblygiadau eraill yn y dyfodol, gan gynnwys newidiadau i Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol allweddol a seminarau Cyfnewidfa Arfer Da Swyddfa Archwilio Cymru, ar gael yn Atodiad 3.

40 Nod rhaglen Cyfnewidfa Arfer Da Swyddfa Archwilio Cymru yw helpu i wella gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru drwy nodi a rhannu arfer da. Drwy seminarau'r Gyfnewidfa bydd amrywiaeth o gyrff sector cyhoeddus yn dod ynghyd i rannu eu profiadau ymarferol a'r gwersi a ddysgwyd ganddynt mewn meysydd lle byddai'n fuddiol rhannu arfer da yn ein barn ni. Cynhelir y seminarau hyn yn rhad ac am ddim i gyfranogwyr. Mae'r digwyddiadau sydd ar y gweill yn cynnwys:

- **Caffael Cynaliadwy.** Canolbwyntio ar sut i greu meddylfryd sy'n cefnogi caffael cynaliadwy yn gysylltiedig â Deddf LlCD.
- **Mesur Canlyniadau.** I gefnogi Deddf LlCD, bydd 44 o gyrff yn troi eu sylw oddi ar allbwn tuag at ganlyniadau ac effaith.
- **Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (PNP).** Mewn partneriaeth a'r Ganolfan PNP yn Iechyd Cyhoeddus Cymru a Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol.
- **Seminar Ddigidol**, yn ystyried astudiaeth 'Defnyddio Data yn Effeithiol gan Swyddfa Archwilio Cymru. Gweithio mewn partneriaeth â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a'r Lab.
- **Creu Cymunedau Cryf.** Canolbwyntio ar ynni adnewyddadwy, sgiliau cymunedol, y Gymraeg, tai a'r economi a Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- **Gwaith partneriaeth rhwng cyrff gwirfoddol a chyrff o'r sector cyhoeddus**. Bydd hyn hefyd yn cynnwys lansio'r Canllaw Arfer Da ar Reoli Grantiau.
- **Archwilio Ariannol – Cau Cyfrifon Llywodraeth Leol Ynghynt.** Canolbwyntio ar newid diwylliant ac ymddygiad.
- **Modelau Cyflenwi Gwasanaeth Amgen.** Mewn partneriaeth â CLlLC, WCVA, Cartrefi Cymunedol Cymru, Cydffederasiwn GIG Cymru ac Arfer Da Cymru.
- **Seiberddiogelwch**. Canolbwyntio ar drefniadau llywodraethu.
- **Atal Derbyniadau i'r Ysbyty.** Ar y cyd â'r GIG, Gofal Cymdeithasol, Tai a phartneriaid o'r Trydydd Sector.
- **Ieuenctid.** Yn dilyn adroddiadau thematig gan Estyn, AGGCC, AGIC a Swyddfa Archwilio Cymru ar ieuenctid. Bydd tîm y Gyfnewidfa Arfer Da yn cynnal seminar dilynol i rannu'r hyn a ddysgwyd.

# Atodiad 1

## Priod gyfrifoldebau

### Archwilio cyfrifon

Fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn nodi fy mhwerau a'm dyletswyddau i gynnal eich archwiliad ariannol. Fy nghyfrifoldeb i yw cyhoeddi tystysgrif ac adroddiad ar y datganiadau ariannol sy'n cynnwys barn ar y canlynol:

- eu 'cywirdeb a'u tegwch', gan roi sicrwydd eu bod:
  - yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol pa un a gawsant eu hachosi drwy dwyll neu wall;
  - yn cydymffurfio â'r gofynion statudol a gofynion cymwys eraill; ac
  - yn cydymffurfio â'r holl ofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu o ran cyfrifyddu.
- Cysondeb y wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol â'r datganiadau ariannol.

Mae'n rhaid i mi hefyd ddatgan drwy eithriad os nad yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cydymffurfio â'r gofynion, os na chadwyd cofnodion cyfrifyddu cywir, os na wnaed y datgeliadau gofynnol ar gyfer cydnabyddiaeth a thrafodion eraill neu os nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi asesu a yw Cyngor Sir Ddinbych wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau. Er mwyn cyflawni hyn, ystyriaf y canlynol:

- canlyniadau'r gwaith archwilio a wnaed ar y datganiadau ariannol;
- system rheolaeth fewnol Cyngor Sir Ddinbych, fel y nodir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'm hadroddiad cysylltiedig;
- canlyniadau gwaith arall a wnaed gan gynnwys gwaith a gynhaliwyd o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), ardystio hawliadau a ffurflenni, ac ymarferion paru data;
- canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle bo hynny'n berthnasol i'm cyfrifoldebau; a
- unrhyw waith arall sy'n ymdrin â materion nas cwmpesir gan yr uchod, ac yr wyf o'r farn ei fod yn angenrheidiol i gyflawni fy nghyfrifoldebau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn nodi hawliau'r cyhoedd ac etholwyr i archwilio datganiadau ariannol y Cyngor a dogfennau cysylltiedig, gofyn cwestiynau i mi, fel yr Archwilydd Penodedig, am y cyfrifon a, lle y bo'n briodol, herio eitemau yn y cyfrifon. Rhaid i mi hefyd ystyried pa un a ddylwn lunio adroddiad, er budd y cyhoedd, ar unrhyw fater a ddaw i'm sylw wrth i mi gynnal yr archwiliad.

Nid yw fy ngwaith archwilio yn rhyddhau rheolwyr, na'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, o'u cyfrifoldebau sy'n cynnwys:

- paratoi'r datganiadau ariannol a'r Adroddiad Blynyddol yn unol â safonau a chanllawiau cyfrifyddu cymwys;
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol; a
- sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau.

Mae'r rheolwyr yn cytuno i roi'r canlynol i mi:

- mynediad i'r holl wybodaeth y mae'r rheolwyr yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i'r gwaith o baratoi'r datganiadau ariannol megis cofnodion, dogfennaeth a materion eraill;
- gwybodaeth ychwanegol y gallaf ofyn amdani gan y rheolwyr er mwyn cynnal yr archwiliad; a
- mynediad anghyfyngedig at unigolion yng Nghyngor Sir Ddinbych y byddaf yn penderfynu ei bod yn angenrheidiol cael tystiolaeth archwilio ganddynt.

Bydd angen i'r rheolwyr roi datganiadau ysgrifenedig i mi er mwyn cadarnhau'r canlynol:

- eu bod wedi cyflawni eu cyfrifoldebau ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol;
- bod pob trafodyn wedi'i gofnodi ac wedi'i adlewyrchu yn y datganiadau ariannol;
- bod yr wybodaeth a roddwyd i mi er mwyn cynnal yr archwiliad yn gyflawn; ac
- ategu tystiolaeth archwilio arall sy'n berthnasol i'r datganiadau ariannol neu honiadau penodol yn y datganiadau ariannol os ystyriaf fod hynny'n angenrheidiol neu os yw'n ofynnol o dan y Safonau Rhyngwladol ar Archwilio.

## Archwilio perfformiad

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi, drwy archwilio'r cyfrifon neu fel arall, fy modloni fy hun fod y corff wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer:

- sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau; a
- bod y corff, os oes angen iddo gyhoeddi gwybodaeth yn unol â chyfarwyddyd o dan adran 47 (gwybodaeth am berfformiad) wedi gwneud trefniadau o'r fath ar gyfer casglu a chofnodi'r wybodaeth a'i chyhoeddi fel sy'n ofynnol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan yr adran honno.

Mae'r Mesur yn gosod dyletswydd gyffredinol ar awdurdodau gwella i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni [eu] swyddogaethau'. Mae hefyd yn gosod gofynion penodol ar awdurdodau i bennu amcanion gwella, ac i gyhoeddi cynlluniau gwella blynyddol ac asesiadau o berfformiad. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, awdurdodau parciau cenedlaethol, ac awdurdodau tân ac achub.

Mae'r Mesur hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i mi gynnal asesiad gwella ar gyfer pob awdurdod gwella bob blwyddyn, er mwyn pennu a yw'r awdurdod yn debygol o gydymffurfio â'i ddyletswydd gyffredinol a gofynion y Mesur. Mae'n rhaid i mi hefyd gynnal archwiliadau i nodi a yw'r awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran gwella, cynllunio ac adrodd ai peidio.

O dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y bydd yn cyflwyno adroddiad i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol mewn perthynas â hwy, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn

crynhoi’r adroddiadau archwilio ac asesu yn ei Adroddiad Gwella Blynyddol cyhoeddedig (o dan adran 24). Bydd yr adroddiad hwn hefyd yn crynhoi unrhyw adroddiadau ar arolygiadau arbennig.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015

Yn ôl Adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'n ofynnol i mi gynnal archwiliad annibynnol o gyrff cyhoeddus er mwyn asesu'r graddau y maent wedi gweithredu'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth:

(a) osod amcanion llesiant; a

(b) chymryd camau i gyflawni'r amcanion hynny.

Mae'n rhaid i mi gynnal archwiliad fel hyn o bob corff cyhoeddus o leiaf unwaith dros gyfnod o bum mlynedd. Cyn diwedd y cyfnod, mae'n rhaid i mi adrodd canlyniadau'r archwiliadau hynny gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

# Atodiad 2

## Gwaith perfformiad sy’n dal i fynd rhagddo o amlinelliad archwiliad y llynedd

Dangosyn 8: gwaith perfformiad sy’n dal i fynd rhagddo o amlinelliad archwiliad y llynedd

Roedd gwaith archwilio perfformiad wedi'i gynnwys yng nghynllun archwilio y llynedd sydd yn dal heb ei gwblhau.

| Prosiect archwilio perfformiad | Statws | Sylwadau |
|---|---|---|
| **Astudiaeth Thematig: Adolygiad defnyddwyr gwasanaeth Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC).** | Bydd yr adolygiad yn gwerthuso sut brofiad yw ymdrin â gwasanaethau'r cyngor (fel aelod o'r cyhoedd). Yn ogystal â phennu a oes gan y Cyngor drefniadau effeithiol i'w alluogi i barhau i fodloni SATC. | Gwaith maes wedi'i gwblhau. I'w chyhoeddi ym mis Ebrill 2018. |
| **Astudiaeth Thematig: Craffu – Addas i'r Dyfodol** | Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried effaith Deddf LlCD ar waith pwyllgorau craffu. | Gwaith maes wedi'i gwblhau. I'w chyhoeddi ym mis Ebrill 2018. |
| **Adroddiad Gwella Blynyddol (AGB)** | Adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn adolygu perfformiad a threfniadau'r Cyngor. | I'w gyhoeddi Mai 2018. |

# Atodiad 3

## Datblygiadau eraill yn y dyfodol

### Newidiadau IFRS allweddol sydd i ddod

Dangosyn 9: Newidiadau IFRS allweddol sydd i ddod

Ceir tri newid allweddol i reolau cyfrifyddu a allai effeithio ar yr awdurdod dros y tair blynedd nesaf.

| Safon | Dyddiad dod i rym | Rhagor o fanylion |
|---|---|---|
| **IFRS 9 Offerynnau ariannol** | 2018-19 | Bydd IFRS 9 Offerynnau ariannol yn disodli IAS 39 ac mae'n cynnwys dull newydd o ddosbarthu a mesur asedau ariannol yn seiliedig ar egwyddorion. Y mae hefyd yn cyflwyno methodoleg lleihau gwerth newydd ar gyfer asedau ariannol sy'n seiliedig ar golledion disgwyliedig yn hytrach na cholledion yr eir iddynt. Bydd hyn yn golygu y gellir cydnabod colledion credyd disgwyliedig yn gynharach ac yn fwy amserol. Caiff bron yr holl ofynion cyfrifyddu ar gyfer rhwymedigaethau ariannol eu dwyn ymlaen heb eu newid o IAS 39. |
| **IFRS 15 Refeniw o gontractau â chwsmeriaid** | 2018-19 | Mae IFRS 15 Refeniw o gontractau â chwsmeriaid yn cyflwyno model pum cam yn seiliedig ar egwyddorion ar gyfer cydnabod refeniw sy'n deillio o gontractau â chwsmeriaid. Mae'n seiliedig ar egwyddor craidd sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r refeniw a gydnabyddir ddangos trosglwyddiad nwyddau neu wasanaethau a addawyd i'r cwsmer mewn swm sy'n adlewyrchu'r gydnabyddiaeth y mae'r corff yn disgwyl bod ganddo hawl iddi, yn gyfnewid am y nwyddau neu'r gwasanaethau hynny. Bydd hefyd yn galw am ddatgeliadau mwy cynhwysfawr nag sydd eu hangen ar hyn o bryd. |
| **IFRS 16 Prydlesi** | 2019-20 | Bydd IFRS 16 yn disodli'r safon gyfredol ar brydlesi, sef IAS 17. Y prif newid yw ei fod yn cael gwared i raddau helaeth ar y gwahaniaeth rhwng prydlesi gweithredu a chyllid i ddeiliaid prydles drwy gyflwyno un model cyfrifyddu ar gyfer deiliaid prydles sy'n eu gwneud yn ofynnol iddynt gydnabod asedau a rhwymedigaethau ar gyfer pob prydles â thymor o fwy na 12 mis, oni bai bod yr ased sylfaenol o werth isel. Yn sgil hyn, caiff pob prydles ei chydnabod ar y fantolen fel ased yn seiliedig ar egwyddor 'hawl i ddefnyddio' gyda rhwymedigaeth gyfatebol am renti yn y dyfodol. Dyma newid mawr i drefniadau cyfrifyddu o ran deiliaid prydles. |

## Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (RhDDC)

Cyfraith diogelu data newydd ar gyfer yr holl UE yw'r RhDDC. Bydd yn dod i rym ar 25 Mai 2018, a'i nod yw cysoni a diweddaru cyfreithiau diogelu data. Mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno'r Bil Diogelu Data fydd yn ymgorffori'r RhDDC yng nghyfraith y DU ac yn disodli Deddf Diogelu Data 1998. Bwriedir i'r Bil hwnnw ddod i rym ar 25 Mai 2018.

Mae'r RhDDC yn cyflwyno gofynion newydd ar gyfer prosesu data personol, gan gynnwys egwyddor atebolrwydd fydd yn golygu bod yn rhaid cadw cofnodion manylach ynghylch prosesu data personol, tystiolaeth o fod wedi cydymffurfio ag egwyddorion diogelu data a'r mesurau diogelu technegol a threfniadol a gymerir i ddiogelu'r data. Rydym yn diweddaru ein polisïau, ein prosesau a'n dogfennau ein hunain gyda golwg ar fodloni'r gofynion hyn, ac yn disgwyl y bydd y cyrff a archwilir gennym yn cymryd camau tebyg. Ymhlith y meysydd gwaith ychwanegol allweddol y mae y defnydd o hysbysiadau prosesu teg manylach, mwy o asesiadau o effaith ar breifatrwydd a chadw cofnodion helaethach yn gysylltiedig â gweithgarwch prosesu.

## Partneriaeth Pensiwn Cymru

Mae'r awdurdodau gweinyddu ar gyfer yr wyth cronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) yng Nghymru wedi sefydlu cronfa fuddsoddi gyfun ar gyfer pensiynau yn unol â gofynion y llywodraeth. O fis Ebrill 2018 ymlaen, bydd Cyd-bwyllgor Llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru yn goruchwylio'r broses o gyfuno tua £15 biliwn o fuddsoddiadau o'r wyth cronfa LGPS yng Nghymru.

Mae angen i'r awdurdodau perthnasol gymryd rhan yn y broses hon yn llawn er mwyn sicrhau bod trefniadau priodol yn cael eu gwneud fydd yn bodloni eu gofynion ac yn sicrhau budd yn sgil cyfuno, gan gynnwys arbedion maint a gostyngiad mewn costau.

## Cyfnewidfa Arfer Da

Mae Cyfnewidfa Arfer Da Swyddfa Archwilio Cymru yn helpu gwasanaethau cyhoeddus i wella drwy rannu gwybodaeth ac arferion sy’n gweithio. Cynhelir digwyddiadau lle gellir cyfnewid gwybodaeth wyneb yn wyneb a chaiff adnoddau eu rhannu ar-lein.

Dangosyn 10: Gweminarau a seminarau cynlluniedig sydd ar ddod gan y Gyfnewidfa Arfer Da.

Mae fy rhaglen gynlluniedig ar gyfer y Gyfnewidfa Arfer Da yn cynnwys 11 maes pwnc

| Dyddiad | Ffurf | Pwnc |
|---|---|---|
| **Ebrill 2018** | Gweminar | **Caffael Cynaliadwy.** Canolbwyntio ar sut i greu meddylfryd sy'n cefnogi caffael cynaliadwy yn gysylltiedig â Deddf LlCD. |
| **Mai 2018** | Gweminar | **Mesur Canlyniadau.** I gefnogi Deddf LlCD, bydd 44 o gyrff yn troi eu sylw oddi ar allbwn tuag at ganlyniadau ac effaith. |

| Dyddiad | Ffurf | Pwnc |
|---|---|---|
| **Mehefin 2018** | Seminar | **Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod.** Mewn partneriaeth â'r Ganolfan PNP yn Iechyd Cyhoeddus Cymru a Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol. |
| **Mehefin 2018** | Seminar | **Digidol.** Seminar lle ystyrir astudiaeth 'Defnyddio Data yn Effeithiol'. Gweithio mewn partneriaeth â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a'r Lab. |
| **Gorffennaf 2018** | Seminar | **Creu Cymunedau Cryf.** Canolbwyntio ar ynni adnewyddadwy, sgiliau cymunedol, y Gymraeg, tai a'r economi ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. |
| **Medi 2018** | Seminar | **Gwaith partneriaeth rhwng cyrff gwirfoddol a chyrff o'r sector cyhoeddus.** Bydd hyn hefyd yn cynnwys lansio'r Canllaw Arfer Da ar Reoli Grantiau. |
| **Hydref 2018** | Gweminar | **Archwiliad Ariannol – Cau Cyfrifon Llywodraeth Leol Ynghynt** Canolbwyntio ar newid diwylliant ac ymddygiad |
| **Rhagfyr 2018** | Seminar | **Modelau Cyflenwi Gwasanaeth Amgen** Mewn partneriaeth â CLlLC, WCVA, Cartrefi Cymunedol Cymru, Cydffederasiwn GIG Cymru ac Arfer Da Cymru. |
| **Ionawr 2019** | Gweminar | **Seiberddiogelwch.** Canolbwyntio ar drefniadau llywodraethu. |
| **Chwefror 2019** | Gweminar | **Atal Derbyniadau i'r Ysbyty.** Ar y cyd â'r GIG, Gofal Cymdeithasol, Tai a phartneriaid o'r Trydydd Sector. |
| **Mawrth 2019** | Seminar | **Ieuenctid.** Yn dilyn adroddiadau thematig gan Estyn, AGGCC, AGIC a Swyddfa Archwilio Cymru ar ieuenctid. Bydd tîm y Gyfnewidfa Arfer Da yn cynnal seminar dilynol i rannu'r hyn a ddysgwyd. |

# Atodiad 4

## Astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol

Efallai y bydd gan y Cyngor hefyd ddiddordeb yn yr archwiliadau gwerth am arian cenedlaethol a gynhelir gennyf. Bydd rhai o'r rhain yn arbennig o berthnasol i lywodraeth leol, ac efallai'n cynnwys casglu tystiolaeth ar draws llywodraeth leol. Cefnogir yr astudiaethau hyn gan gronfeydd a gymeradwyir gan y Cynulliad Cenedlaethol. Cyflwynir adroddiadau i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol i'w helpu i graffu ar wariant cyhoeddus ac o bosib i hwyluso trefniadau craffu pwyllgorau eraill y Cynulliad Cenedlaethol.

Mae Dangosyn 11 yn trafod yr holl waith mewn perthynas ag astudiaethau gwerth am arian sydd wedi'u rhaglennu ar hyn o bryd. Mae'r rhaglen hon yn cynnwys crynodebau Cymru gyfan o'r gwaith archwilio a wnaed yn lleol yn y GIG ac archwiliadau ymatebol o feysydd penodol sy'n peri pryder i'r cyhoedd a godwyd â mi. Yn ogystal â'r gwaith a amlinellir isod, mae'n bosibl y byddaf yn penderfynu llunio adroddiadau cenedlaethol eraill yn ystod y flwyddyn a fydd yn crynhoi gwaith archwilio lleol neu waith dilynol, neu a fydd yn seiliedig ar ganfyddiadau archwiliadau eraill ymatebol.

Cyflwynir adroddiadau diweddaru pellach ar fy rhaglen o astudiaethau gwerth am arian i chi o fewn yr adroddiadau cynnydd rheolaidd a baratoir gan fy nhîm.

Dangosyn 11: astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol

| Pwnc | Cyhoeddiad disgwyliedig (ar 11 Ionawr 2018) |
|---|---|
| Gwasanaethau gofal sylfaenol[2] | Chwefror/Mawrth 2018 |
| Mynediad i wasanaethau cyhoeddus gyda chymorth gwasanaethau dehongli a chyfieithu arbenigol | Mawrth/Ebrill 2018 |
| Rheoli gwastraff (atal gwastraff)<br>Rheoli gwastraff (ailgylchu trefol)<br>Rheoli gwastraff (caffael seilwaith) | Mawrth/Mai 2018 |
| Ymyrraeth gynnar a newid ymddygiad y cyhoedd[3] | Mawrth/Ebrill 2018 |
| Gwasanaethau meddyg teulu y tu allan i oriau – adroddiad cryno cenedlaethol | Ebrill/Mai 2018 |
| Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 – 2020 | Ebrill/Mai 2018 |
| Cyllid busnes | Mai 2018 |

[2] Adroddiad cychwynnol sy'n cynnwys cyfoeth o ddata ac sy'n cyflwyno 'darlun o ofal sylfaenol' cyn cyflawni mwy o waith archwilio lleol.

[3] Yn dilyn gwaith ar arferion da, rydym yn bwriadu llunio crynodeb byr i amlygu rhai o'r materion a godwyd a'r dystiolaeth a gasglwyd drwy'r gwaith hwnnw, ynghyd â chyfres o bodlediadau ategol.

| Pwnc | Cyhoeddiad disgwyliedig (ar 11 Ionawr 2018) |
|---|---|
| Costau staff asiantaeth y GIG[4] | Haf 2018 |
| Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol yr UE 2014 – 2020 | Haf 2018 |
| Gwella llesiant pobl ifanc | Hydref 2018 |
| Gwasanaethau radioleg – crynodeb cenedlaethol | I'w gadarnhau |
| Cronfa Gofal Integredig | I'w gadarnhau |
| Y gofal a brofir gan blant a phobl ifanc[5] | I'w gadarnhau |

[4] Yn ddiweddar, cychwynnwyd gwaith i gasglu data o bob rhan o wasanaethau iechyd y DU ar gyfer papur ar yr ymagweddau amrywiol a fabwysiedir i ymdrin â'r gost gynyddol o gyflogi staff meddygol a nyrsio asiantaeth o fewn y GIG. Mae union ffurf y gwaith hwn yn dal heb ei phenderfynu.

[5] Mae'r PAC bellach wedi nodi ei gynlluniau cyntaf i gyflawni gwaith ymholi parhaus ar y testun hwn. Byddaf yn cefnogi'r gwaith hwn, er nad oes penderfyniad wedi'i wneud eto ynghylch union natur unrhyw allbwn ychwanegol yn gysylltiedig ag archwilio, na'r raddfa amser ar gyfer hynny.

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales